

# Strategaeth Twf
# Garddwriaeth Amgylcheddol
## Gweledigaeth i Gymru

Environmental Horticulture Growth Strategy - a vision for Wales

# Nodau a Chanlyniadau

- Creu cymunedau iach a chydnerth
- Cefnogi busnesau lleol
- Diogelu bioddiogelwch
- Gwella iechyd a lles
- Tyfu twristiaeth gerddi
- Cynyddu gweithgarwch cynhyrchu garddwriaethol yng Nghymru
- Sicrhau gweithlu a sgiliau ar gyfer y dyfodol
- Meithrin twf economaidd gwyrdd

# Cyflwyniad

Mae Cymdeithas y Crefftau Garddwriaethol (HTA) yn cynrychioli 85 o fusnesau ar draws Cymru sy'n aelodau, a bron i 1,400 o sefydliadau garddwriaeth ar draws cadwyn gyflenwi gyfan y diwydiant garddio a garddwriaeth amgylcheddol yn y DU. Mae hyn yn cynnwys canolfannau garddio, tyfwyr coed a phlanhigion, tirlunwyr, cynhyrchwyr a darparwyr gwasanaeth. Yn ogystal, mae HTA yn rheoli rhaglen y Cerdyn Rhodd Garddio Cenedlaethol, sy'n boblogaidd ymhlith 30 miliwn o arddwyr y DU.
Yn 2019, roedd y diwydiant tirlunio a garddwriaeth amgylcheddol yng Nghymru wedi cefnogi cyfraniadau o £1,125 biliwn i GDP y DU, gwerth £249 miliwn ar ffurf trethi i'r trysorlys, a chynnal cyflogaeth 31,168 o bobl.
Nid yn unig y mae'r sector yn gwneud cyfraniadau arwyddocaol i'r economi wledig a threfol, ond mae hefyd yn cynnig budd cymdeithasol ac amgylcheddol enfawr, ac o ran iechyd a lles, i gymunedau ledled Cymru. Gwelir cydnabyddiaeth gynyddol i werth planhigion a mannau gwyrdd, ond mae'n rhaid i'r sector sy'n cyflawni hyn gael ei werthfawrogi a'i gydnabod yn yr un modd.

*Dangoswyd bod mannau gwyrdd fel parciau, coedwigoedd a gerddi yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar les corfforol a meddyliol, gan hyrwyddo cydnerthedd, cysylltiad cymdeithasol a chysylltiad â byd natur. Trwy wella mynediad i weithgareddau natur, mae presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd yn cynnig y manteision ychwanegol o dreulio amser ym myd natur i gynorthwyo iechyd a lles.[3]*





# Pam bod garddwriaeth amgylcheddol yn bwysig?

## Cydnerthedd yr hinsawdd a'r amgylchedd

Mae planhigion, coed a mannau gwyrdd yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod cymunedau yng Nghymru yn gydnerth er mwyn ymdopi â newid hinsawdd. Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Hong Kong a Chyfoeth Naturiol Cymru (NRW) yn awgrymu bod disgwyl i'r lefel uchaf o straen gwres ar bobl godi 4.5 gradd Celsius erbyn 2080, a bod "mesurau lliniaru yn hanfodol er mwyn lleihau straen gwres yn y dyfodol mewn dinasoedd a threfi yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau megis cynyddu mannau gwyrdd trefol, pyllau, llynnoedd, coed a chysgod artiffisial."[4]

## Bioamrywiaeth ac iechyd planhigion

Mae ymchwil wedi dangos bod cynyddu cyfoeth, gorchudd neu ddwysedd planhigion brodorol mewn mannau gwyrdd trefol yn gysylltiedig â chynnydd mewn bioamrywiaeth anifeiliaid, a'r ffactor mwyaf yw'r adnoddau a ddarperir gan y planhigyn ei hun[3]. Mae bioamrywiaeth yn sylfaen i ecosystem gyfan y DU a chaiff ei gynorthwyo gan rwydweithiau natur, gerddi preifat a mannau gwyrdd. Mae bioddiogelwch yn flaenoriaeth i'r diwydiant planhigion ac mae'n hanfodol er mwyn diogelu bioamrywiaeth frodorol. Rydym yn parhau i weithio gyda llunwyr polisi i sicrhau cadwyn gyflenwi planhigion bioddiogel sy'n diogelu tirlun naturiol y DU ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Iechyd a lles

Yn y strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Ddrafft, mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ymgysylltu â byd natur, parciau a mannau gwyrdd fel 'asedau cymunedol'[6], ac yn nodi bod canolfannau garddio yn cyflawni rôl fel canolfannau cymunedol sy'n hwyluso rhyngweithio cymdeithasol ac sy'n dathlu'r cariad a rennir tuag at blanhigion a garddio. Mae'r canolfannau hyn yn gonglfeini pwysig mewn cymunedau, ac maent yn cael eu curadu'n ofalus, eu cynorthwyo a'u darparu gan y sector garddwriaeth amgylcheddol.

## Twristiaeth a natur

Ceir potensial i dyfu'r sector twristiaeth gerddi yng Nghymru, o ystyried y ffaith bod mwy o ddiddordeb ynddo yn dilyn y pandemig. O blith yr holl ymweliadau a wnaed yn 2019, roedd 26% ohonynt yn ymweliadau â gerddi/parciau gwledig a gwarchodfeydd natur/bywyd gwyllt, ac fe gododd y gyfran honno i 45% yn 2020 a 46% yn 2021. Mae manwerthu ym maes garddio yn cyflawni rôl hanfodol hefyd wrth alluogi ac ysbrydoli defnyddwyr i ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol, ac amcangyfrifir bod defnyddwyr yn y DU wedi gwneud 200 miliwn o ymweliadau â chanolfannau garddio yn 2022.

## Beth yw garddwriaeth amgylcheddol?

Yn gyffredinol, mae'r sector hwn yn cwmpasu'r gweithgareddau penodol canlynol:

- Cyflenwi nwyddau gardd
- Coedyddiaeth
- Gwasanaethau tirlunio
- Twristiaeth gerddi
- Tyfu planhigion addurnol
- Cyfanwerthu blodau a chynnyrch gardd
- Gwerthu cynnyrch gardd, planhigion a blodau tusw



# Aelod o HTA yng Nghymru

Canolfan Arddio The Old Railway Line



"Mae Canolfan Arddio The Old Railway Line yn fusnes teuluol annibynnol sy'n cyfuno Canolfan Arddio, Siop Fferm a Bwyty. Rydym yn gwerthu cynnyrch o'r radd flaenaf ar gyfer yr ardd, y cartref, a byw yn yr awyr agored, law yn llaw â bwyd a diod blasus a ffres, a gynhyrchir yn lleol.Rydym wedi'n lleoli yng nghesail Dyffryn Gwy, mewn lleoliad hynod o brydferth ar waelod y Mynydd Du, gan fwynhau golygfeydd godidog o Fannau Brycheiniog a Bryniau Maesyfed. Mae ein tîm ymroddedig o oddeutu 100 o weithwyr yn teimlo'n angerddol ynghylch planhigion, pobl a'r blaned. Rydym yn cynnal cysylltiad cryf gyda'n cymuned, gan gydweithio'n rheolaidd gydag ysgolion a grwpiau lleol er mwyn hyrwyddo manteision garddio ar gyfer iechyd personol, yr amgylchedd a bioamrywiaeth.

Mae cynaliadwyedd yn hollbwysig i ddatblygiad ein busnes, ac mae'n tîm brwdfrydig yn cyfleu hyn trwy gyfrwng arddangosiadau yn y siop, cynnig cyngor rhagorol a gwasanaeth cwsmer o'r radd flaenaf, gan arddangos yr hyn y gall cwsmeriaid ei gyflawni gartref. Mae planhigion wrth wraidd ein busnes, a chaiff dros 85% o'n stoc ei sicrhau o feithrinfeydd yn y DU a'i atgyflenwi gyda chyflenwadau wythnosol rheolaidd. Mae maint bychan ein safle yn golygu bod angen i ni gylchdroi'r stoc yn gyflym er mwyn cyflenwi detholiad helaeth a ffres o gynnyrch.

Gwasanaeth cwsmeriaid yw ein nodwedd amlycaf, ac rydym yn pwysleisio hyn trwy gyfrwng hyfforddiant mewnol cynhwysfawr, gan sicrhau bod pob aelod newydd o'r tîm yn deall 'Ffordd The Old Railway Line'. Gan ein bod wedi ein lleoli mewn ardal wledig, mae'r rhan fwyaf o'n hymwelwyr yn teithio dros awr i'n cyrraedd, felly rydym yn ymdrechu i gynnig y profiad gorau posib iddynt, ac rydym yn dibynnu ar ymweliadau mynych gan y rhai sy'n gwneud y daith."

**Katie Eckley** | Cyfarwyddwr Gweithrediadau




1. Chwiliwch am fusnesau sy'n aelodau yma: https://hta.org.uk/hta-memberships/members-directory?location=Wales&name=
2. Growing a Green Economy, The importance of ornamental horticulture and landscaping to the UK (Ornamental Horticulture Roundtable Group, 2021)
3. From Nursery to Nature: The Value of Plants (HTA 2023) URL: https://hta.org.uk/value-of-plants
4. Adroddiad newydd yn darogan effaith tywydd poeth yn ninasoedd Cymru yn y dyfodol (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2024) URL: https://naturalresources.wales/about-us/news-and-blogs/news/new-report-predicts-impact-of-future-heatwaves-in-welsh-cities/?lang=cy
5. Strategaeth ddrafft iechyd meddwl a llesiant meddyliol, Llywodraeth Cymru 2024. URL: https://www.llyw.cymru/strategaeth-ddrafft-iechyd-meddwl-llesiant-meddyliol
6. Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2021 Adroddiad ar gyfer Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru 2022. URL: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2022-08/ymweliadau-ag-atyniadau-twristiaeth-yng-nghymru-2021.pdf
7. Arolwg annibynnol HTA drwy YouGov gyda 4,023 o oedolion 16+ oed yn y DU (Rhagfyr 2023)



# Pam bod datgloi twf gwyrdd yn y sector garddwriaeth amgylcheddol mor bwysig i Gymru[7]

Mae **87%** o oedolion yng Nghymru yn dweud bod ganddynt fynediad i'w gardd breifat eu hunain.

Mae **74%** o oedolion yng Nghymru sydd â gerddi preifat yn dweud eu bod yn tueddu i'w defnyddio fel man i ymlacio

Mae **62%** yn defnyddio eu gardd breifat i dyfu planhigion, coed neu flodau; mae 58% yn defnyddio eu gardd i fwydo/gwylio neu annog bywyd gwyllt

Mae **55%** o oedolion yng Nghymru wedi ymweld â chanolfannau garddio o leiaf unwaith dros y 12 mis diwethaf

Mae **25%** o oedolion yng Nghymru yn dweud eu bod wedi ymweld â chanolfannau garddio unwaith neu ddwywaith yn ystod y deuddeg mis diwethaf; 17% wedi bod 3-4 gwaith, a 9% wedi bod 5-10 gwaith

Roedd **83%** o oedolion yng Nghymru yn cytuno bod gerddi a mannau gwyrdd cyhoeddus yn cynnig budd i'w cyflwr meddwl

Roedd **81%** o oedolion yng Nghymru yn cytuno bod gerddi a mannau gwyrdd cyhoeddus yn cynnig budd i'w hiechyd corfforol

Dywedodd **24%** o oedolion yng Nghymru eu bod yn garddio'n rheolaidd fel hobi neu yn ystod eu hamser sbâr, dywedodd 40% eu bod yn garddio o bryd i'w gilydd, fel hobi neu yn eu hamser sbâr.

# Garddwriaeth Amgylcheddol yng Nghymru
# Ceisiadau a Chanlyniadau

**Cais**

Adolygu'r rheoliadau presennol yng Nghymru, a'r rheoliadau sydd ar y ffordd er mwyn gwaredu biwrocratiaeth ddianghenraid a sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn parhau i fod yn gystadleuol.

**Canlyniad**

**Cais**

Adolygu'r meini prawf er mwyn neilltuo arwyddion twristiaeth brown er mwyn cynyddu twristiaeth gerddi.

**Canlyniad**

**Cais**

Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys o leiaf 29.5% o ran lle ar gyfer dwysedd gerddi mewn datblygiadau newydd, a dylent sicrhau bod mannau gwyrdd trefol sy'n bodoli eisoes yn cael eu diogelu a'u cynnal.

**Canlyniad**

**Cais**

Cydweithio gyda llywodraeth y DU i sicrhau bod prosesau ffiniau y DU yn ddi-dor ac yn fioddiogel.

**Canlyniad**

**Cais**

Cydnabod gwerth gerddi a mannau gwyrdd ar draws meysydd polisi allweddol trwy ddatblygu a gweithredu strategaeth garddwriaeth holistig.

**Canlyniad**

**Cais**

Sicrhau bod cymorth grant yn fwy hygyrch i ganolfannau garddio a thyfwyr ar gyfer buddsoddiadau mewn arloesi a thechnoleg awtomatiaeth, casglu dŵr, mwy o gynaliadwyedd a thyfu heb fawn.

**Canlyniad**

**Cais**

Rhaid gwella amseroedd ymateb yr heddlu i ddigwyddiadau troseddau manwerthu ac mae'n rhaid cydnabod ymosod ar weithiwr manwerthu fel trosedd ar ei phen ei hun.

**Canlyniad**

**Cais**

Defnyddio garddwriaeth a garddio fel datrysiad polisi er mwyn gwella adferiad ac iechyd meddwl cleifion, ac er mwyn atal salwch.

**Canlyniad**

**Cais**

Dylai'r Llywodraeth weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod y system sgiliau yn darparu ar gyfer y gofynion presennol a'r gofynion yn y dyfodol o ran sgiliau ar gyfer y sector garddwriaeth amgylcheddol.

**Canlyniad**

## Allwedd Canlyniadau

- Creu cymunedau iach a chydnerth
- Cefnogi busnesau lleol
- Diogelu bioddiogelwch
- Gwella iechyd a lles
- Tyfu twristiaeth gerddi
- Cynyddu gweithgarwch cynhyrchu garddwriaethol yng Nghymru
- Sicrhau gweithlu a sgiliau ar gyfer y dyfodol
- Meithrin twf economaidd gwyrdd

# Ceisiadau gan HTA ar gyfer Llunwyr Polisi

**1. Cydnabod gwerth gerddi a mannau gwyrdd ar draws meysydd polisi allweddol trwy ddatblygu a gweithredu strategaeth garddwriaeth holistig,** sy'n cynnwys mannau gwyrdd a garddwriaeth amgylcheddol. Byddai modd cyflawni hyn trwy ddatblygu'r Cynllun Garddwriaeth Masnachol a diwygio Cynllun Gweithredu Strategol Garddwriaeth 2010. Mae angen cydlynu ar draws adrannau, a gyda San Steffan, er mwyn cynyddu gwerth y sector gymaint ag y bo modd.

**2. Sicrhau bod cymorth ar ffurf grantiau yn fwy hygyrch i ganolfannau garddio a thyfwyr,** y mae 95% ohonynt yn fusnesau bach a chanolig, ar gyfer buddsoddiadau mewn arloesi a thechnoleg awtomeiddio, casglu dŵr, mwy o gynaliadwyedd a thyfu heb fawn yn benodol. Byddai modd gwneud hyn trwy ostwng yr isafswm buddsoddi a amlinellir yng Nghynllun Buddsoddi Rheoli Maethynnau i gyd-fynd â Chronfa Technoleg ac Offer Ffermio llywodraeth y DU, gan bod yr isafswm presennol yn ormod i dyfwyr llai o faint. Byddai modd gwella hygyrchedd cymorth hefyd trwy ehangu rhestr yr eitemau cymwys i gynnwys eitemau y mae gofyn i ganolfannau garddio a thyfwyr coed a phlanhigion eu cael yn y cynllun Effeithlonrwydd Grantiau Bychain.

**3. Dylai'r Llywodraeth weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod y system sgiliau yn darparu ar gyfer gofynion sgiliau presennol y sector garddwriaeth amgylcheddol, a'i ofynion o ran sgiliau yn y dyfodol.** Dylid cyflawni hyn trwy gyfrwng cymorth gan y llywodraeth i hwyluso cysylltiadau cryfach gydag ysgolion, colegau garddwriaethol a chyflogwyr. Byddai cynnwys garddwriaeth yn y cwricwlwm yn helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arddwriaethwyr. Rhaid cynorthwyo hyn gyda chyngor gyrfaoedd gwell ynghylch garddwriaeth, tirlunio a dylunio.

**4. Tyfu twristiaeth gerddi trwy arwain adolygiad o'r meini prawf er mwyn neilltuo arwyddion brown twristiaeth ar y cyd â Chroeso Cymru.** Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r pellter sylweddol y mae cwsmeriaid yn aml yn teithio er mwyn ymweld â chanolfannau garddio yng Nghymru, a'r cyfleusterau modern a gynigir gan y canolfannau hyn. Cynhelir tua 200 miliwn o ymweliadau y flwyddyn gyda chanolfannau garddio yn y DU.

**5. Adolygu'r rheoliadau presennol a'r rheoliadau sydd ar y ffordd yng Nghymru i waredu biwrocratiaeth ddianghenraid** a sicrhau bod busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn parhau i fod yn gystadleuol. Lleihau'r gost o wneud busnes trwy ddiwygio'r system ardrethi busnes a chymorth ardrethi er mwyn caniatáu i fusnesau manwerthu fuddsoddi mewn sero net, sgiliau ac arloesi. Dylid diwygio'r system gynllunio er mwyn sicrhau nad yw prosesau yn cyfyngu ar gynlluniau busnesau garddwriaethol i ehangu.

**6. Manteisio ar y cyfle i ddefnyddio garddwriaeth a garddio fel datrysiad polisi i wella adferiad ac iechyd meddwl cleifion, ac er mwyn atal salwch.** Cynyddu cyfraddau presgripsiynu cymdeithasol i gleifion a sicrhau bod cyllid hanfodol mewn lleoliadau iechyd a gofal yn bodloni'r galw cynyddol.

**7. Cydweithio gyda llywodraeth y DU i sicrhau bod prosesau wrth ffiniau'r DU yn ddi-dor** er mwyn masnachu planhigion ac arddel safonau bioddiogelwch llym yng Nghymru.

**8. Dylai datblygiadau newydd neu ddatblygiadau ar y cyd mewn awdurdod cynllunio gynnwys o leiaf 29.5% o le ar gyfer dwysedd gardd** i gyfateb â chyfran gerddi preswyl trefol Prydain ar hyn o bryd. Mae cynnal cymorth a diogelwch ar gyfer safleoedd gwyrdd trefol presennol yn hanfodol hefyd.

**9. Gwella amseroedd ymateb yr heddlu, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, a gwneud ymosod ar weithiwr manwerthu yn drosedd ar ei phen ei hun.** Adroddodd dros 70% o ganolfannau garddio bod troseddu yn broblem ac mae nifer o fanwerthwyr wedi buddsoddi mewn mesurau estynedig i atal dwyn, megis meddalwedd adnabod wynebau. Bydd y mesurau hyn yn helpu i ddiogelu cymunedau lleol rhag cyfraddau troseddau manwerthu sy'n codi.

*Canfu gwaith modelu a gynhaliwyd yn ddiweddar gan HTA y byddai codiad cymedrol o 5% ym mhris planhigion a werthir (yn gymharol â gweddill yr economi) yn debygol o arwain at ostyngiad yng nghyfanswm y planhigion a gyflenwir o ychydig dros 10%, sy'n dangos y byddai trosglwyddo'r costau i ddefnyddwyr yn peryglu cyfanswm y planhigion a'r coed a ddarperir mewn ffordd sylweddol, yn ogystal â'u cyfraniad amgylcheddol a chymdeithasol i'r DU.*